**Gwybodaeth i Gleifion**

# Ar ôl Llawdriniaeth Cataractau

**Uned Llygaid**

Mae'ch cataractau wedi'u tynnu ac mae lens wedi'i osod ar ei llygad. Darllenwch y daflen hon yn ofalus a dilynwch y cyfarwyddiadau ynddi

**Cyfarwyddiadau yn syth ar ôl eich llawdriniaeth**

Ymlaciwch pan fyddwch yn mynd adref

Cadwch y "darian" arnoch tan y bore wedyn. Gwisgwch hi gyda'r nos am un wythnos.

Pan fydd effaith yr anesthetig yn dod i ben, efallai y byddwch mewn rhywfaint o boen neu'n anghyfforddus. Gallwch gymryd poenladdwyr i ddelio â hyn. Defnyddiwch yr un faint ag y byddech ar gyfer cur pen. Mae'n bosibl y byddwch yn gweld dwbl weithiau, ond bydd hyn yn pasio.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am eich llawdriniaeth ffoniwch y Ward Llygaid ar 01633 238414**

**GOLCHWCH eich dwylo cyn rhoi'r diferion llygaid a sychwch eich llygaid â HANCES LÂN.**

Mae llawdriniaeth fodern yn ddiogel iawn ac o fewn rheswm dylech ddal ati'n ôl eich arfer.

Defnyddiwch y diferion/eli llygaid yn ôl y cyfarwyddiadau:-

**Cyfarwyddiadau y diwrnod ar ôl y llawdriniaeth**

1. Cadwch eich amrantau’n lân. Os ydyn nhw’n ludiog neu’n gras, defnyddiwch ddŵr berw sydd wedi oeri a swab gwlân cotwm glân. I lanhau’r amrantau swabiwch unwaith a thaflwch y swab.

2. Peidiwch â chodi eitemau trwm: Gallwch dal i wneud gwaith cartref ysgafn a choginio.

3. Gallwch wylio’r teledu a darllen.

4. Gallwch gael bath a golchi’ch gwallt. Osgowch gael siampŵ yn eich llygad.

5. Peidiwch â phlygu am gyfnod rhy hir.

6. Peidiwch â gwisgo colur llygaid am o leiaf 3 wythnos.

7. Gwisgwch eich sbectol eich hun, os ydyn nhw o gymorth, neu sbectol tywyll i leddfu’r golau yn ystod y dydd.

8. Byddwch yn cael cyngor ar ddychwelyd i’r gwaith.

9. Gallwch ail-afael ar yrru os gallwch fodloni safonau’r DVLA a’ch bod wedi caniatáu digon o amser i ddod i arfer â’r golwg newydd, o leiaf 48 awr.

10. Os ydych yn cael mwy o bod, gollyngiadau budr, neu fod eich golwg yn rhyfedd neu’n gwaethygu, cysylltwch ag adran y llygaid ar unwaith.
    Gallai’r symptomau hyn olygu bod gennych haint.

**Rhestr Wirio:-**

- Diferion / Eli
- Cerdyn apwyntiad
- Llythyr optegydd
- Llythyr meddyg teulu

Llofnod:- ___________________________

**Beth ddylwn i fod yn wyliadwrus amdano?**

- Poen nas rheoli gan boenladdwyr arferol (1g o Paracetamol h.y. 2 dabled).
- Gludiogrwydd neu ollyngiadau gormodol
- Golwg waeth

**I gael cyngor ffoniwch:-**

Ward y Llygaid ar 01633 238414
(Llun-Iau 5.30pm - 8:00am) (Gwener 5.30pm - 7.30pm)
(Sadwrn - 10.00am - 1.30pm) (Sul - 2.00pm - ar agor 24 awr)

Clinig Atgyfeirio Brys ar 01633 238856

Dylai Cleifion Achosion Dydd ffonio Casnewydd 01633 238352
(Llun – Gwe 8.00am-5.30pm)

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**